# Trwyddedau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

9 Mawrth 2016

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 17 Chwefror, pan wnaethoch ofyn:

1. *A wnaeth y Cynulliad dalu am drwydded gyfryngau NLA (Asiantaeth Trwyddedu Papurau Newydd) neu drwydded gyfryngau CLA (Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint) yn 2013-2014?*
2. *Os felly, faint dalodd y Cynulliad am y trwyddedau yn 2013-2014 (rhowch y ffigurau ar wahân)?*
3. *A wnaeth y Cynulliad dalu am drwyddedau cyfryngau eraill yn 2013-2014?*
4. *Rhestrwch unrhyw drwyddedau cyfryngau eraill y tanysgrifiodd y Cynulliad iddynt a faint dalwyd amdanynt yn 2013-2014.*

1. *A wnaeth y Cynulliad dalu am drwydded gyfryngau NLA (Asiantaeth Trwyddedu Papurau Newydd) neu drwydded gyfryngau CLA (Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint) yn 2013-2014?*
2. *Os felly, faint dalodd y Cynulliad am y trwyddedau yn 2013-2014 (rhowch y ffigurau ar wahân)?*

Ar gyfer y cyfnod 27 Awst 2013 - 31 Mawrth 2014, talodd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru £2,461.40 (yn cynnwys TAW) am drwydded NLA.

3. *A wnaeth y Cynulliad dalu am drwyddedau cyfryngau eraill yn 2013-2014?*

Na, ni wnaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru dalu am drwyddedau cyfryngau eraill yn ystod 2013-14.


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales


**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

4. *Rhestrwch unrhyw drwyddedau cyfryngau eraill y tanysgrifiodd y Cynulliad iddynt a faint dalwyd amdanynt yn 2013-2014.*

Gweler ein hymateb i gwestiwn 3 uchod.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan ynhttp://www.cynulliad.cymru/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno’n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae’r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF